Eitem Agenda 5 **14 Mai 2010** **WNC 16.10**

DIWEDDARIAD O STRATEGAETH GYFATHREBU GORFFORAETHOL COMISIWN COEDWIGAETH CYMRU 2009-12

Pwrpas

1. I roi fersiwn wedi'i ddiweddaru o Strategaeth Gyfathrebu Gorfforaethol Comisiwn Coedwigaeth Cymru 2009-12 i'r Pwyllgor Cenedlaethol.

Cefndir

2. Er mwyn helpu Comisiwn Coedwigaeth Cymru i fabwysiadu dulliau mwy strategol a chydlynol mewn perthynas â chyfathrebu, datblygwyd Strategaeth Gyfathrebu Gorfforaethol ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2009 hyd at 31 Mawrth 2012. Mae'r strategaeth hon ar waith oddi ar fis Ebrill 2009 .

3. Caiff y Strategaeth ei hadolygu'n flynyddol er mwyn asesu effaith ein negesau, ystyried dylanwadau allanol a mewnol ac, os oes angen, ail-ganolbwyntio ein hymdrechion ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

4. Yn dilyn ymgynghori mewnol ac allanol, ac ystyriaeth o'r gwerthusiad cyfryngol, cafodd y Strategaeth ei diweddaru.

5. Cafodd y diweddariad ei gymeradwyo gan y Bwrdd Rheoli ac mae ar waith gan y busnes.

Goblygiadau Ariannol

6. Nid oes goblygiadau ariannol uniongyrchol newydd i'r diweddariadau.

Argymhellion

7. Bod y Pwyllgor Cenedlaethol yn nodi'r Strategaeth Gyfathrebu Gorfforaethol wedi'i diweddaru.

Sam Argent
Y Tîm Cyfathrebu
3 Mai 2010